WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cadarnhewch y dyddiad pob cyfarfod o'r cyngor am y flwyddyn.

Os nad oes unrhyw gyfarfod mewn mis arbennig, rhowch X yn y blwch.

Mis	Dyddiad	Mis	Dyddiad
Ebrill 2018	9/4/18	Hydref 2018	8/10/18
Mai 2018	14/5/18	Tachwedd 2018	12/11/18
Mehefin 2018	11/6/18	Rhagfy 2018	10/12/18
[illegible]nnaf 2018	9/7/18	Ionawr 2019	14/1/19
[illegible]018	Dim	Chwefror 2019	11/2/19
[illegible]018	10/9/18	Mawrth 2019	11/3/19

FENNAETH Y
)R/Y CYHOEDI
/IEITHOG ☑

ATHREBU AM Y
ARCHWILIAD
MHOLIADAU)
WYIEITHOG ☑

Rhaid i gyrff llywodrae
yng nghyhoeddiad Un Li
for local councils in Wales
nodi y gall cyrff baratoi eu cyfri

ability
erwyr yn

Y cyfrifon a'r broses archwilio

Mae'r cyfrifon a'r trefniadau archwilio yn dilyn y broses a nodir isod.

Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol/Clerc yn paratoi datganiadau cyfrifyddu a Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Bydd yr uned archwilio mewnol yn cwblhau adroddiad archwilio mewnol. Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ardystio'r ffurflen (o dan Ran 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol) **cyn 30 Mehefin** ac yn cyflwyno'r ffurflen i'r corff.

→

Bydd y corff yn cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol erbyn 30 Mehefin. Mae llofnod y Cadeirydd yn y blwch o dan Ran 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn dyst o hyn.

Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol/Clerc yn anfon y Ffurflen Flynyddol a chopïau ardystiedig o'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani at yr archwilydd allanol sy'n gweithredu ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

→

Bydd yr archwilydd allanol yn cwblhau'r archwiliad a:

Naill ai:

Os nad oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau, bydd yn ardystio'r Ffurflen Flynyddol ac yn ei dychwelyd at y corff i'w chyhoeddi erbyn 30 Medi.

Neu:

Os oes angen gwneud diwygiadau, bydd yn rhoi gwybod i'r corff am broblemau (gan gynnwys diwygiadau). Bydd y corff yn diwygio'r Ffurflen Flynyddol, bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ei hailardystio a bydd y corff yn ei hailgymeradwyo cyn ei dychwelyd at yr archwilydd. Yna bydd yr archwilydd yn ardystio'r Ffurflen Flynyddol ac yn ei dychwelyd at y corff i'w chyhoeddi erbyn 30 Medi.

Darllenwch y canllawiau ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol hon a chwblhewch bob adran mewn coch gan gynnwys drwy adran y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

AM GOPI ELECTRONIG, CYSYLLTWCH Â'CH ARCHWILYDD

Mae'n bosibl y bydd ffurflenni anghyflawn neu anghywir yn galw am waith archwilio allanol ychwanegol ac yn arwain at gostau ychwanegol. Anfonwch y Ffurflen Flynyddol **wreiddiol**, ynghyd â'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, at yr archwilydd allanol sy'n gweithredu ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Oni bai y gofynnir i chi wneud hynny, **peidiwch** ag anfon unrhyw gofnodion ariannol gwreiddiol na chofnodion eraill at yr archwilydd allanol.

Caiff ffurflenni a archwiliwyd ac a ardystiwyd eu dychwelyd at y corff i'w cyhoeddi neu er mwyn cyhoeddi'r datganiadau cyfrifyddu, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Rhestr wirio cwblhau

Bydd ateb 'Anghywir' yn golygu nad ydych wedi bodloni'r gofynion o bosibl		Gweithredwyd?	
Cyflwyniad cyntaf i'r archwilydd allanol		Cywir	Anghywir
Cyfrifon	A yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi ardystio'r datganiadau cyfrifyddu ac a yw'r corff wedi cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol (fel y dangoswyd gan y llofnodion perthnasol), erbyn 30 Mehefin 2018 fan bellaf?	✓	
	A yw'r cyfrifon yn cyfrifo'n gywir ac a yw'r balans a gaiff ei barhau o'r llynedd yn cyfateb i'r balans agoriadol eleni?	✓	
	A yw'r papurau i'w hanfon at yr archwilydd allanol yn cynnwys esboniad o amrywiadau sylweddol, gan gynnwys dadansoddiad wedi ei fesur o'r newidiadau rhwng y llynedd ac eleni?	✓	
	A yw'r cysoniad banc ar 31 Mawrth 2018 yn gyson â llinell 9?	✓	
Pob adran	A yw'r holl flychau coch wedi'u cwblhau ac a oes esboniadau wedi'u rhoi lle bo angen?	✓	
	A yw'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani gan yr archwilydd allanol wedi'i hanfon gyda'r Ffurflen Flynyddol hon? Dylech gyfeirio at yr hysbysiad o'r archwiliad ac unrhyw amserlenni ychwanegol a ddarparwyd gan eich archwilydd allanol.	✓	
Tystiolaeth	A yw'r holl wybodaeth y gofynnir amdani gan yr archwilydd allanol wedi'i chynnwys?	✓	

Datganiadau cyfrifyddu 2017-18 ar gyfer:

Enw'r corff: Rhowch enw'r corff yma CYNGOR BOTWNNOG

	Y flwyddyn a ddaeth i ben		Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon
	31 Mawrth 2017 (£)	31 Mawrth 2018 (£)	Dylech dalgrynnu'r ffigurau i'r £ agosaf. Ni ddylech adael unrhyw flychau yn wag na chofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigur fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.
Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau			
1. Balansau a ddygwyd ymlaen	8536	8243	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol.
2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll	5000	5000	Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff.
3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill	18733	1052	Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod llai'r symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a refeniw.
4. (-) Costau staff	1863	1863	Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig e.e. costau terfynu.
5. (-) Llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf	—	—	Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl).
6. (-) Cyfanswm taliadau eraill	22163	4763	Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod, a thynnu costau staff (llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf (llinell 5).
7. (=) Balansau a barhawyd	8243	7669	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) - (4+5+6).
Datganiad o falansau			
8. (+) Dyledwyr a balansau stoc	—	—	**Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff a balansau stoc a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn.
9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau	8243	7669	**Pob cyfrif:** Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â chysoniad y banc.
10. (-) Credydwyr	—	—	**Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn.
11. (=) Balansau a barhawyd	8243	7669	**Dylai cyfanswm y balansau fod yn gyson â llinell 7 uchod:** Nodwch gyfanswm (8+9-10).
12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor	—	18,833	Gwerth **gwreiddiol** cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth.
13. Cyfanswm benthyciadau	—	—	Balans cyfalaf dyledus pob benthyciad o drydydd partïon ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB).

14. Nodyn datgelu cronfeydd ymddiriedolaeth	Ydy	N/Y	Dd/G	Ydy	N/Y	Dd/G
			✓			✓

Mae'r corff yn gweithredu fel unig ymddiriedolwr ac mae'n gyfrifol am reoli (a) cronfa/cronfeydd ymddiriedolaeth/ asedau (dylai darllenwyr nodi nad yw'r ffigurau uchod yn cynnwys unrhyw drafodion ymddiriedolaeth).

Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1)

Rydym yn cydnabod fel aelodau o'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, ein cyfrifoldeb dros sicrhau bod yna system reolaeth fewnol gadarn, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytunwyd?		Mae 'CYWIR' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:	Cyf y Dangosydd Perfformiad
	Cywir	Anghywir*		
1. Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer: • gwaith rheoli ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a • pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu.	✓		Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel y rhagnodir gan y gyfraith.	6, 12
2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.	✓		Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth.	6, 7
3. Rydym wedi cymryd camau rhesymol i roi sicrwydd i'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu bosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor i gynnal ei fusnes nac ar ei sefyllfa ariannol.	✓		Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny.	6
4. Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.	✓		Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â diddordeb archwilio a gofyn cwestiynau am gyfrifon y corff.	6, 23
5. Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen.	✓		Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r corff a delio â hwy'n briodol.	6, 9
6. Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.	✓		Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff.	6, 8
7. Rydym wedi ystyried pa un yw unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y Cyngor/Bwrdd/ Pwyllgor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.	✓		Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol.	6
8. Rydym wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol.	✓		Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol.	6, 8, 23
9. Cronfeydd ymddiriedolaeth – yn rhinwedd ein swydd fel ymddiriedolwr, rydym wedi: • cyflawni ein cyfrifoldeb mewn perthynas ag atebolrwydd am y gronfa/cronfeydd gan gynnwys cyflwyno adroddiadau ariannol a, lle y bo angen, cynnal archwiliadau annibynnol.	Do: D/G	Naddo	Cyflawni ei gyfrifoldebau yn rhinwedd ei swydd fel unig reolwr-ymddiriedolwr ymddiriedolaeth neu ymddiriedolaethau lleol.	3, 6

* Ar ddalen ar wahân, rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb a nodwyd fel 'Anghywir' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 2)

	Cytunwyd?		Mae ateb 'Cywir' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi:
	Cywir	Anghywir*	
1. Rydym wedi ystyried digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn a gedwir gan y corff wrth osod y gyllideb ar gyfer 2017-18 a 2018-19, ac mae cynlluniau priodol yn eu lle ar gyfer defnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyn.	✓		Wedi bodloni gofynion Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1989 wrth osod y gofyniad cyllideb a'r praesept ar gyfer y blynyddoedd ariannol.
2. Wrth ddyfarnu grantiau o dan adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972, rydym wedi cyfrif grantiau o'r fath ar wahân ac wedi ystyried a yw'r manteision sy'n deillio o daliadau o'r fath yn gymesur â'r symiau a dalwyd neu beidio.	✓		Wedi cadw cofnod priodol o'r grantiau a ddyfarnwyd a sicrhau bod y gwariant yn gymesur â'r budd i'r gymuned.
3. Mae'r Cyngor wedi sicrhau bod ganddo rhwymedigaeth gyfreithlon i dalu rhodd arian gwasanaeth i gyflogeion * neu Nid oes gan y Cyngor unrhyw rwymedigaeth neu fwriad i dalu arian rhodd i gyflogeion.*	✓		Wedi sicrhau lle mae ganddo drefniant i roi arian rhôdd i staff, mae wedi sicrhau bod rhwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu'r rhodd arian.

* Dileer fel y bo'n briodol.

Cymeradwyaeth ac ardystiad y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor

Y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac am baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol

Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, pa un bynnag sy'n berthnasol, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.

Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol: [signature]

Enw: angen enw GWENDA ROBERTS

Dyddiad: dd/mm/bbbb 04/10/2018

Cymeradwyaeth gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor

Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod:

Rhowch gyfeirnod y cofnodion a dyddiad y cyfarfod 25 Hydref 18 / Cyng: Ion Cynsa 11 Hyd 18

Llofnod y Cadeirydd: angen llofnod [signature]

Enw: angen enw GWYN ROBERTS

Dyddiad: dd/mm/bbbb 04/10/2018.

Ailgymeradwyaeth ac ailardystiad y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (dim ond os bydd y ffurflen flynyddol wedi ei diwygio yn yr archwiliad y bydd eu hangen)

Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol

Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, pa un bynnag sy'n berthnasol, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.

Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol: [signature]

Enw: angen enw GWENDA ROBERTS

Dyddiad: dd/mm/bbbb 05/10/2018

Cymeradwyaeth gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor

Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod:

Rhowch gyfeirnod y cofnodion a dyddiad y cyfarfod

Llofnod y Cadeirydd: angen llofnod [signature]

Enw: angen enw GLENYS WILLIAMS

Dyddiad: dd/mm/bbbb 8/10/2018

Tystysgrif archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r archwilydd allanol yn cynnal yr archwiliad ar ran, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ar sail ei adolygiad o'r Ffurflen Flynyddol a'r wybodaeth ategol, mae'n nodi pa un a fydd unrhyw fater a ddaw i'w sylw yn peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

Ardystiwn ein bod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 ar gyfer:

BCYNGOR BOTWNNOG

Adroddiad yr archwilydd allanol

~~[Ac eithrio'r materion a adroddir isod]~~* Ar sail ein hadolygiad, yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw sy'n peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

[~~Mae'r materion hyn, ynghyd â~~]* Mae materion eraill nad ydynt yn effeithio ein barn yr ydym yn tynnu sylw'r corff atynt, yn ogystal â'n hargymhellion ar gyfer gwella wedi eu cynnwys yn ein hadroddiad i'r corff, dyddiedig 30/9/18 .]

Materion eraill ac argymhellion

Ar sail ein hadolygiad, tynnwn sylw'r corff at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar ein barn archwilio ond y dylai'r corff ymdrin â hwy.

Gweler yr adroddiad amgaeëdig

BDO LLP Southampton United Kingdom

(Parhewch ar daflen ar wahân os oes angen.)

Enw'r archwilydd allanol: BDO LLP Southampton United Kingdom

Llofnod yr archwilydd allanol: BDO LLP

Dyddiad: 30/9/18

Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

* Dileer fel y bo'n briodol.

Adroddiad archwilio mewnol blynyddol ar gyfer:

Enw'r corff: Rhowch enw'r corff yma CYNGOR BOTWNNOG

Mae archwiliad mewnol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2018.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ba un a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor.

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Cywir	Anghywir*	Dd/G	Heb ei gynnwys**	
1. Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn.	✓				
2. Bodlonwyd rheoliadau ariannol, cefnogwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	✓				
3. Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli.	✓				
4. Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol.		✓			
5. Cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	✓				
6. Cefnogwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.			✓		
7. Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.	✓				
8. Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn ac yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol.		✓			

"C"

Adroddiad Materion yn Codi ar gyfer Cyngor Cymuned Botwnnog Archwiliad ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

BDO

Cyflwyniad

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi i dynnu sylw Cyngor Cymuned Botwnnogat eitemau. Daeth y materion hyn i sylw BDO LLP yn ystod archwiliad y ffurflen flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.

Efallai na fydd archwiliad y ffurflen flynyddol yn datgelu pob gwendid yn y systemau gan ei bod yn bosibl na fydd pob mater wedi dod i sylw'r archwilydd. Oherwydd hyn, efallai nad y materion a godwyd yw'r unig rai sy'n bodoli.

Mae'r materion a restrir isod yn cael eu hesbonio'n fanylach ar y dudalen/y tudalennau sy'n dilyn

- Datganiad Llywodraethiant Blynyddol - Arian rhodd
- Argymhellion yr Archwilydd Mewnol
- Gwerth asedau
- Y Broses Gyllidebu
- Cronfeydd wrth gefn
- Pwerau gwariant - pŵer A137 yn cael ei ddefnyddio'n anghywir

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi er mwyn helpu'r Cyngor i wella eu rheolaeth fewnol neu eu harferion gwaith. Argymhellir bod y Cyngor yn ystyried y rhain ond nid oes unrhyw rwymedigaeth statudol i weithredu arnynt.

Gwerth asedau

Beth yw'r mater?

Mae'r archwilydd mewnol wedi nodi y dylai gwerth yr asedau sydd gan y cyngor gael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r holl asedau y mae'r cyngor yn berchen arnynt.

Pam mae'r mater wedi cael ei godi

Gallai gwerth cost asedau sefydlog sydd wedi eu cynnwys yn y Ffurflen Flynyddol fod wedi eu tan-ddatgan.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Rhaid i'r cyngor adolygu ei asedau sefydlog a sicrhau ei fod yn cael ei ddiweddaru i gynnwys pob ased cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

Mae'n hanfodol bod y cyngor yn adolygu ei gofrestr asedau sefydlog, o leiaf unwaith y flwyddyn, a bod yn fodlon ei fod yn cofnodi'n gywir holl asedau sy'n cael eu dal.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru - Canllawiau i Ymarferwyr, Un Llais Cymru/CCCLl

Cronfeydd wrth gefn

Beth yw'r mater?

Mae balans y gronfa gyffredinol sydd gan y cyngor yn ymddangos yn uchel.

Pam mae'r mater wedi cael ei godi

Nid oes gan y cyngor y grym i gadw cronfeydd gormodol wrth gefn oni bai eu bod yn cynilo i brynu rhywbeth penodol. Roedd y dadansoddiad o'r cronfeydd wrth gefn sydd gan y cyngor yn dangos nad yw'r rhain yn cael eu cadw am unrhyw bwrpas penodol neu un wedi'i glustnodi.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Os nad yw'r cyngor yn cynilo ar gyfer pryniant mawr, argymhellir bod y balansau ariannol sy'n cael eu cario ymlaen yn cael eu gostwng i lefel mwy priodol. Nid yw lefel y cronfeydd wrth gefn sy'n cael ei dderbyn yn gyffredinol fel arfer fwy na lefel y praesept neu wariant rhwng 3 a 12 mis.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru - Canllawiau i Ymarferwyr, Un Llais Cymru/CCCLl

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi gan fod mân gamsyniadau ar y ffurflen flynyddol yr ydym yn dymuno tynnu sylw'r Cyngor atynt er mwyn iddynt beidio â digwydd eto mewn blynyddoedd i ddod.

Datganiad Llywodraethiant Blynyddol - Arian rhodd

Beth yw'r mater?

Nid yw'r awdurdod llai wedi cwblhau'r cwestiwn ar Rhan 2 yn gywir, sy'n ymwneud â'r rhwymedigaeth i dalu arian rhodd. Nid yw'r datganiad anghywir wedi cael ei groesi allan i adael yr un sy'n darllen 'Nid oes gan y Cyngor unrhyw rwymedigaeth na bwriad i dalu arian rhodd i gyflogedigion'.

Pam mae'r mater wedi cael ei godi

Nid yw'r ffurflen flynyddol wedi cael ei chwblhau'n llawn yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddwyd.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Dylai'r awdurdod llai sicrhau fod pob cwestiwn yn cael ei ateb yn llawn yn y dyfodol.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Nodiadau canllaw ar gyfer y ffurflen flynyddol

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi er mwyn helpu'r Cyngor. Argymhellir bod y Cyngor yn gweithredu ar y materion canlynol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn ei fframwaith statudol.

Argymhellion yr Archwilydd Mewnol

Beth yw'r mater?

Mae'r archwilydd mewnol wedi nodi rhai gwendidau yn systemau ariannol y cyngor.

Pam mae'r mater wedi cael ei godi

Mae'r cyngor yn agored i'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwendidau hyn.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Rhaid i'r cyngor weithredu'r argymhellion gafodd eu gwneud gan yr archwilydd mewnol i wella systemau ariannol y cyngor cyn gynted â phosibl neu o leiaf cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

Os bydd y cyngor yn mynd i'r afael â'r materion gafodd eu codi gan yr archwilydd mewnol dylai'r cyngor wella rheolau mewnol fydd yn helpu i atal a chanfod gwallau a thwyll gan helpu'r cyngor i weithredu mewn modd effeithiol ac effeithlon.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru - Canllawiau i Ymarferwyr, Un Llais Cymru/CCCLl

Y Broses Gyllidebu

Beth yw'r mater?

Y Broses Gyllidebu

Pam mae'r mater wedi cael ei godi

Roedd y cyngor yn agored i feirniadaeth oherwydd diffyg tystiolaeth o fonitro'r gyllideb a'r risg o orwario. Dangosodd y cyngor ddiffyg rheolaeth ariannol.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Rhaid i'r cyngor sicrhau bod derbyn y gyllideb yn cael ei gofnodi a'i fod yn adolygu'n rheolaidd yr incwm a'r gwariant gwirioneddol yn erbyn yr incwm a'r gwariant yn y gyllideb. Dylai'r cyngor fonitro'r gyllideb o leiaf bob chwarter, neu'n amlach na hynny os oes angen.
Mae hyn yn rheolaeth fewnol hanfodol ac yn agwedd allweddol o reolaeth ariannol y cyngor. Rhaid i gofnodion ddangos yn glir benderfyniadau'r Cyngor gan eu bod yn gofnod cyfreithlon o ddigwyddiadau cyfarfodydd y Cyngor. Bydd faint o fonitro cyllideb sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn yn dibynnu ar faint y Cyngor ac ar gymhlethdod ei gyllid.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru - Canllawiau i Ymarferwyr, Un Llais Cymru/CCCLl

Pwerau gwariant - pŵer A137 yn cael ei ddefnyddio'n anghywir

Beth yw'r mater?

Gwnaethpwyd taliadau i un neu ragor o'r canlynol: clwb/clybiau cymdeithasol, chwaraeon neu ieuenctid lleol, allai fod wedi cael ei awdurdodi dan A19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, y pŵer i ddarparu cyfleusterau hamdden o fewn a thu hwnt i'r ardal.

Cafodd cyfraniadau eu gwneud tuag at Eisteddfod allai fod wedi cael eu hawdurdodi dan Adran 145 Deddf Llywodraeth Leol 1972, darparu adloniant a chefnogi'r celfyddydau.

Gwnaethpwyd taliadau tuag at fynwent leol allai fod wedi cael eu hawdurdodi dan A214 Deddf Llywodraeth Leol 1972, y grym i gyfrannu tuag at gostau mynwentydd.

Pam mae'r mater wedi cael ei godi

Cofnododd y Cyngor eitemau fel taliadau Adran 137 yn anghywir, lle'r oedd grymoedd statudol eraill yn bodoli. Ni ellir cofnodi taliad dan Adran 137 os oes grym statudol arall yn bodoli.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Yn y dyfodol rhaid i'r cyngor sicrhau eu bod yn adolygu'r rhestr grymoedd statudol sydd ar gael i'r cyngor er mwyn sefydlu a oes grym yn bodoli cyn dibynnu ar Adran 137 i awdurdodi taliad. Dylai'r grym statudol sy'n cael ei ddefnyddio i awdurdodi gwariant gael ei gofnodi wrth ochr yr eitem i ddangos fod y cyngor neu'r cyfarfod wedi dilyn eu rheolau sefydlog a'u rheoliadau ariannol yn briodol.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru - Canllawiau i Ymarferwyr, Un Llais Cymru/CCCLl

Ni ddaeth unrhyw faterion eraill i'n sylw.

Dros ac ar ran
BDO LLP

Dyddiad:30 Medi 2018